

CLWB MYNYDDA CYMRU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd nos Fercher 17 Ionawr ym Mhlas y Brenin.

Presennol : DH, CeJ, AW, MT, AH, JW, AR, LIG, CJ

Ymddiheuriadau : MR, TW, JAJ.

1. Ymestynodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol, gan gynnwys Mike Raine, Cadeirydd newydd Rhanbarthol Cenedlaethol Cymru, CMP. Fel Cadeirydd roedd e'n awyddus:
 - datblygu agwedd agored newydd
 - cyhoeddi newyddlen ar gyfer agweddau ffurfiol y cyfarfodydd
 - datblygu dwyieithrwydd
 - ystyried rhannu'r rhanbarthol fel "de" a "gogledd"

2. Materion yn codi o'r CCB.
Bydd rhaid gosod fersiwn cyfredol y Cyfansoddiad ar y Wefan.

3. Materion CMP
 - 3.1 Fel canlyniad i'r CCB roedd Cadeirydd ac Ysgrifennydd newydd
 - 3.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf Rhanbarth Cymru nos Fawrth 6ed Chwefror am 7.30 yn y "Vaynol Arms", Nant Peris. Gall unrhwy aelod o CMC mynychu'r cyfarfod a phleidllesio. Bydd bwyd am ddim !
 - 3.3 Oherwydd bygythiad y Golygydd i beidio cyhoeddi tudalen dwyieithog yn SUMMIT ar ôl y rhifyn nesaf, penderfynwyd byddai'r Cadeirydd yn cysylltu a ChMP
 - 3.4 Cytunwyd arddangos baneri CMC yn y cyntedd adeg y darlith gan GMP ym Mhrif Darlithfa'r Celfyddydau, Prifysgol Bangor am 6.45 yh, nos Fawrth, 30 Ionawr. Gofynwyd am aelodau'r Pwyllgor ceisio mynychu. Bydd cyfle i ddsbarthu taflenni'r Clwb. Tocynnau, £5, o GMP neu wrth y ddrws
 - 3.5 Roedd aelodaeth CMP yn dyledus, £8.75 dros 18 oed a £6 odano, fel rhan o dal aelodaeth CMC. A ddylai CMC godi tal llai ar gyfer y sawl o dan 18 oed ?
 - 3.6 Amddiffyn plant. Derbynodd yr Ysgrifennydd holiadur a chopi o lyfryn sy'n cynnwys Cyngor i rieni darpar mynyddwyr ifanc.
 - 3.7 Ar ol trafodaeth, cytunwyd ar y blaenoriaethau ar gyfer Rhanbarth Cymru CMP:-
 - sicrhau tir fynediad i gerddwyr
 - annog cyfiethu a chyhoeddi'n ddwyieithog popeth ar gyfer y cyhoedd ac aelodau yng Nghymru
 - cadw colofn dwyieithog yn SUMMIT
 - peidio a hollti Cymru, ond sefydlu ardaloedd y tu mewn i un rhanbarth Cymreig.

4. Grant Sportslot.
Onibai fod y Clwb yn cyhoeddi'r daflen recriwtio, mae 'na perygl bydd rhaid ad-dalu'r cymhorthdaliad o £750. Hefyd ni ellir ceisio am gymorthdaliadau newydd.

5. **Tuag at y dyfodol.**
 - 5.1 Cynaliwyd trafodaeth fawl ar ddulliau cynnal gweithgreddau ag ennill aelodau newydd, yn arbennig rhai iau.
 - 5.2 Cytunwyd i ddsbarthu holiadur efo'r cylchlythyr nesaf
 - 5.3 Ar ôl ei lawnsio, bydd cyfle cynnal fforwm trwy'r Wefan.
 - 5.4 Cytunwyd targedu pobl ifanc dros 18 oed, yn arbennig rhai yn y colegau.
 - 5.5 Cytunwyd magu perthynas efo cymdeithasau awyr agored i bobl ifanc, e.e. yn Nyffryn Conwy
 - 5.6 Cytunwyd fod cyfle i godi ymwybyddiaeth yn y cyfryngau lleol cyn cyfarfodydd gan y Clwb yn y dalgylch.
 - 5.7 Cytunwyd ystyried cynnig ad-daliad rhannol o ffioedd waliau dringo gan aelodau ifanc newydd ar ôl derbyn cynllun manwl yn y Pwyllgor.

6. **Rhoddion**
 - 6.1 Cytunwyd peidio a chyfranu at apel Canolfan Treftadaeth Kate Roberts
 - 6.2 Ystyrir rhoddion ar gyfer achosion sy'n rhannu'r un amcanion a'r Clwb o hyn ymlaen, fel y gwelir yn y Cyfansoddiad.
 - 6.3 Cytunwyd noddi "MT" am hanner cost cwrs cymorth cyntaf, sef £50, ar yr amod bydd hi yn arwain tair taith i'r Clwb.

7. **Offer y Clwb.**
 - 7.1 Cytunwyd prynu offer dringo newydd i'r Clwb, gan gynnwys rhaffau newydd (gg rhaff statig un pitsh), cwpl o harnessi a rac neu ddwy.
 - 7.2 Awgrymwyd peidio a chodi tal benthyc offer o hyn ymlaen, ond blaendal o 10% cost adnewyddu. Gohiriwyd penderfyniad tan y cyfarfod nesa or ôl derbyn barn Gwyn Roberts ar y pwnc.
 - 7.3 Penderfynwyd peidio a fenthyc offer dringo ar hyn o bryd a thrafod eto maes o law
 - 7.4 Angen rhestr llawn o offer, amodau benthyc ac argaeledd ar Wefan y Clwb.

8. **Cyfarfod nesaf.**

Nos Fercher 23 Mai am 7.30yh ym Mhlas y Brenin.

9. **Teithiau ar gyfer y dyfodol.**
 - 8.1 Cytunwyd atgoffa pob arweinydd, gan gynnwys hefyd nodyn yn y Cylchlythyr nesaf, darparu enw a chyfeiriad unrhwy unigolyn sydd ymuno ag unrhwy gweithgared egniol y Clwb sydd heb dalu £15 tal aelodaeth - er mwyn cydymffurfio ag amodau yswyriant.
 - 8.2 Cytunwyd ar gyfres o deithiau y tu allan i Gymru a dros benwythosau yng Ngymru.
 - 8.3 Cytunwyd ar sgerbwdd rhaglen teithiau ar gyfer y cyfnod nesaf.